

danalogic GN

danalogic Extend

Eich Bluetooth
newyddh®
Cymhorthion
clyw Sain Ynni
Isel



Eich cymhorthion clyw danalogic Extend newydd, ein hamrediad GIG cyntaf i ymgorffori'r Bluetooth newydd sbon® protocol Sain Ynni Isel

Cafodd Bluetooth LE Audio ei ddatblygu mewn cydweithrediad â'r diwydiant Electroneg Defnyddwyr a gweithgynhyrchwyr cymhorthion clyw. Mae Bluetooth LE Audio wedi'i optimeiddio ar gyfer pŵer isel, defnydd, ansawdd sain uchel, a natur gudd isel iawn. Gyda Bluetooth LE Audio, bydd yn bosibl i sefydlu cysylltiadau uniongyrchol o'r Teledu, gliniadur neu ddyfeisiau cydnaws Bluetooth 5.3 eraill, i gymhorthion clyw. Mae gan danalogic extend y protocol newydd hwn wedi'i adeiladu i mewn yn ddiofyn a gall gael ei gysylltu hefyd â llifau darlledu Auracast. Mae'n golygu bod hwn yn ddatrysiad gwirioneddol ar gyfer y dyfodol i'ch cleifion o ran cysylltedd.

Oll heb angen dyfais yn y canol i gysylltu'r unedau. Diolch i dechnoleg Ynni Isel Bluetooth, gallwch ffrydio drwy'r dydd tra'n cadw bywyd batri.

Am restr o ddyfeisiau clyfar cydnaws gweler y rhestr yma www.danalogic.co.uk/connectivity


Mae gan Danalogic Extend hefyd y gallu i hwyluso gwneud galwadau heb ddwylo â dyfeisiau Apple® detholedig. Mae galw heb ddwylo yn caniatáu i chi ateb galwadau ffôn gan ddefnyddio'ch cymhorthion clyw a bydd eich cymhorthion clyw yn gweithredu fel microffon i godi eich llais, yn ogystal â ffrydio'r sŵn o'ch ffôn yn uniongyrchol i mewn i'ch cymhorthion clyw. Am restr o ddyfeisiau Apple cydnaws ar gyfer y nodwedd hon, ewch i'n gwefan yma www.danalogic.co.uk/connectivity

Manteision cymhorthion clyw Bluetooth Ynni Isel

- Gall galwadau ffôn tra'n gwisgo cymhorthion clyw fod yn anodd. Bydd eich cymhorthion clyw newydd yn caniatáu i chi ffrydio galwadau ffôn yn ogystal â fideo yn uniongyrchol. Mae hyn yn ei gwneud hi'n haws i glywed yr hyn sy'n cael ei ddweud.
- Nid oes rhaid i chi bellach wisgo clustffonau i wrando ar gerddoriaeth, fideos na sain arall o'ch dyfais glyfar gan y bydd y sain yn cael ei ffrydio i mewn i'ch cymhorthion clyw.


Cysylltu'ch cymhorthion clyw ar gyfer ffrydio Bluetooth



Os oes gennych ddyfais glyfar gydnaws, dilynwch y cyfarwyddiadau yn y llyfryn hwn i gysylltu'ch cymhorthion clyw iddo.



Sut i baru'ch cymhorthion clyw â'ch dyfais Apple

1. Diffoddwch eich cymhorthion clyw.
2. Trowch Bluetooth ymlaen drwy fynd i'r ddewislen 'Settings' ar eich dyfais Apple. Mae'r sleidiwr yn troi'n wyrdd pan ysgogwch Bluetooth.
3. Ewch yn ôl i'r brif ddewislen Settings ac yna tapiwch ar 'Accessibility'.
4. Sgroliwch i lawr i 'Hearing Devices'.
5. Os yw eich cymhorthion clyw ymlaen eisoes, ailgychwynnwch nhw. Fel arall, trowch eich cymhorthion clyw ymlaen. Bydd hyn yn sicrhau y gall eich dyfais Apple ganfod eich cymhorthion clyw.






1. Tapiwch ar 'Pair'. Os oes gennych ddau gymorth clyw, bydd angen i chi dderbyn dwywaith.
2. Ewch i'r App Store a chwiliwch am 'BeMore' ar gyfer eich cymhorthion clyw.
3. Lawrlwythwch yr ap BeMore. Agorwch ef a thapiwch 'Get Started'.
4. Dilynwch y cyfarwyddiadau ar y sgrîn i gysylltu â'r ap. Rydych chi'n barod i ddechrau yn awr.

SYLWCH: Dyma'r camau a sut mae'n edrych yn iOS 13 ac yn fwy newydd

Os oes angen i chi ailbaru’ch dyfais Apple

Os yw un o’ch cymhorthion clyw neu’r ddau wedi cael eu newid, bydd angen i chi eu hailbaru â’ch dyfais glyfar.



1. Dechreuwch drwy dynnu’r hen gymhorthion clyw drwy fynd i’r ddewislen Settings.
2. Sgroliwch i lawr a dewiswch ‘Accessibility’.
3. Dewiswch ‘Hearing Devices’.
4. Dewiswch y cymhorthion clyw ar sgrîn o dan yr adran ‘MFI Hearing Devices’ a thapiwch ar ‘Forget this device’.
5. Ailddechreuwch eich cymhorthion clyw newydd a phwyswch ‘Pair’. Bydd angen i chi dapio ‘Pair’ ddwywaith os ydych yn gwisgo dau gymorth clyw.



Sut i fwynhau Galwadau Heb Ddwlylo ar gyfer iPhone® ac iPad® gyda danalogic Extend

Sicrhewch fod eich dyfais yn gydnaws drwy wirio'n gwefan www.danalogic.co.uk/connectivity


Swyddogaeth	Sut i
Ateb galwad	Defnyddiwch bwyso byr ar fotwm eich cymorth clyw neu sleidiwch i ateb ar yr iPhone/iPad
Gorffen galwad	Pwyswch a daliwch eich botwm cymorth clyw am ychydig eiliadau i orffen yr alwad. Fel arall, terfynwch drwy dapio'r botwm coch ar eich sgrîn
Ail alwadau sy'n dod i mewn	Os ydych chi ar alwad ac mae gennych ail alwad yn dod i mewn, gwrthodwch hi drwy ddefnyddio'r pwyso hir ar fotwm eich cymorth clyw neu tapiwch 'Decline' ar y sgrîn iPhone neu iPad
Newidiwch y sain	Defnyddiwch y botymau sain i fyny ac i lawr ar yr iPhone neu iPad
Diffoddwch alwadau heb ddwylo yn y gosodiadau cymorth clyw iOS	Cliciwch y botwm gwthio iPhone deirgwaith i gyrchu'r gosodiadau cymorth clyw iOS (gallwch hefyd gael mynediad drwy'r Control Centre). Dewiswch 'Input Options' wedyn 'Off'



Sganiwch y cod QR i gyrchu sut i wneud fideo neu ewch i:
danalogic.co.uk/patient-portal

Sut i baru'ch cymhorthion clyw â'ch dyfais Android™

1. Ewch i'r Google Play Store, chwilwch am BeMore a lawrlwythwch yr ap.
2. Cyn gynted â'i fod wedi'i lawrlwytho, agorwch yr ap a thapiwch 'Get Started'.
3. Dilynwch y cyfarwyddiadau ar y sgrîn i gysylltu â'r ap. Rydych chi'n barod i ddechrau yn awr.



Os oes angen i chi ailbaru'ch dyfais Android

Os yw un o'ch cymhorthion clyw neu'r ddau wedi cael eu newid, bydd angen i chi eu hailbaru â'ch dyfais glyfar.

1. Sweipiwch i lawr o frig y sgrîn i agor y ddewislen 'Settings', yna daliwch yr eicon Bluetooth am 2 eiliad.
2. Daliwch yr eicon Settings ar gyfer Cymhorthion Clyw am 2 eiliad.
3. Dewiswch 'Forget'.
4. Agorwch yr ap BeMore.
5. Agorwch y 'BeMore Menu' a dewiswch 'Pair new hearing aids'. Yna dilynwch y cyfarwyddiadau ar sgrîn i gysylltu. Rydych chi'n barod i ddechrau yn awr.



Os ydych chi'n cael anawsterau, gwiriwch ein gwefan **www.danalogic.co.uk/patient-portal** am ragor o gyfarwyddyd neu cysylltwch â'ch awdiolegydd.



Sganiwch fi am fynediad ar unwaith i gymorth cymhorthion clyw, cyfarwyddiadau gofal, sut i wneud fideos a rhagor.

© 2024 GN Hearing A/S. Cedwir pob hawl. Mae Danalogic yn nod masnach GN Hearing A/S. Mae Apple, logo Apple, iPhone, iPad ac iPod touch yn nodau masnach Apple Inc., wedi'u cofrestru yn yr Unol Daleithiau a gwledydd eraill. Mae App Store yn nod gwasanaeth Apple Inc., wedi'i gofrestru yn yr Unol Daleithiau a gwledydd eraill. Mae Android, Google Play a logo Google Play yn nodau masnach Google LLC. Mae nod gair a logos Bluetooth yn nodau masnach cofrestredig dan berchenogaeth Bluetooth SIG, Inc. Mae nod gair a logos Auracast yn nodau masnach dan berchenogaeth Bluetooth SIG, Inc.



danalogic GN

Mae Danalogic from GN yn gweithio'n galetach i ysgogi canlyniadau cadarnhaol ar draws taith gyfan y claf, gan alluogi'r GIG i gyflawni gofal gwell lle mae'n wirioneddol bwysig.

Mae Danalogic yn rhan o'r Grŵp GN – yn arloesi sain gwych o ddyfeisiau clyw sy'n arwain y byd i glustffonau swyddfa Jabra a chlustffonau chwaraeon. Sefydlwyd yn 1869 ac yn cyflogi dros 5,000 o bobl. Mae GN yn gwneud i fywyd swnio'n well.

www.danalogic.co.uk



GN Hearing UK Ltd.
Unit 13,
Talisman Business Centre,
Bicester OX26 6HR
Tel: +44 1869 352 800
Ffacs: +44 1869 343 466
danalogicuk@gnhearing.com
www.danalogic.co.uk